CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 25.02.2010 A GYNHALIWYD YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.00PM

YN BRESENNOL
Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Andrew Carter (cyrraedd am 7.30pm),
Elsie Dafis, Margaret Davies-Evans,
Greg Evans & Lynda Mason-George.
Y Cynghorydd Sirol Ivor Williams
Y Plismon Richard Marshall
Hannah Smith – Gohebydd y Wasg y Cambrian News
Mr Ru Hartwell, Cyfarwyddwr y Cwmni Treeflights (6.50-7.35pm)

CYFLWYNIAD POWER-POINT GAN MR RU HARTWELL CYFARWYDDWR CWMNI TREEFLIGHTS (Prosiect plannu coed i amsugno carbon)

Cyflwyniad gan Mr Ru Hartwell, Cyfarwyddwr Cwmni *Treeflights,* oedd yr eitem gyntaf a drafodwyd, cwmni di-elw a leolir yn Llanddewi-Brefi. Ceisiai'r cwmni ddatrys ychydig o'r problemau'n ymwneud â newid hinsawdd, trwy blannu coed i amsugno carbon. Cyflawnir hyn wrth gydlynu'r *Cysylltiad Carbon Cymuned Llambed a Kenya* sy'n ymroi i gysylltu'r ddwy gymuned trwy gyfrwng carbon.
Derbyniodd y prosiect ddiddordeb trigolion lleol ac y mae wedi eu hannog i ysgwyddo'r cyfrifoldeb mewn rhan, am eu hallyniadau carbon, wrth ystyried maint ôl-troed carbon Cymru. Y mae dros 20 o fudiadau lleol wedi ymrwymo i leihau eu hôl-traed drwy noddi'r *Cysylltiad Carbon Cymunedau'n* gyfedrol h.y. drwy noddi'r plannu o goed yn Kenya neu amddiffyn ardal fechan fforestydd-glaw y trofannau. Oherwydd lleoliad agos Kenya i'r cyhydedd, ymsugna'r coed mwy o garbon, wrth gymharu â lleoedd pell i ffwrdd. I noddi coeden gnau cashew, y gost yw £2.50, a chodir tâl o £1 i amddiffyn 20m^2 o fforestydd glaw. Cyfarfu costau gweinyddu'r prosiect gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan y *Cynllun Cymunedau Seren Aur*. Felly caiff yr holl arian a godir ei gyfrannu'n uniongyrchol i'r achos megis:

- £1 Tyfu Planhigion / Dosbarthiad / Gweinyddiaeth;
- £1 Tâl ar gyfer y ffermwr;
- £0.50 Cymhorthdal ar gyfer yr ysgol leol gynradd.

Llwyth *Giriama* sy'n ffurfio canran helaeth o'r gymuned *Bore*, y gwir dlodion sydd wedi eu gwthio i'r ymylon o fewn gwlad Kenya, sydd ei hun yn un o'r gwledydd tlotaf y byd. Niferus yw manteision y cynllun. Y mae cyfleoedd gwaith, mawr eu hangen, yn cael eu creu ar gyfer ffermwyr Kenya, sy'n plannu'r coed sy'n amsugno CO_2. Mae'r ymarfer hwn, yn hwb hefyd, i bioamrywiaeth. Cynhyrchir cnwd gwerthfawr sy'n helpu'r ffermwr ac yn gostyngu'r angen i gwympo coed y fforestydd a'r ddibyniaeth ar losgi golosg, yr unig ffordd arall o godi arian. Fel canlyniad, lleihau'r allyniadau carbon. Caiff peth o'r arian a godir, ei gyfrannu at yr ysgol leol ac i addysg y plant, fel y soniwyd uchod.

Nid yw plannu coed wedi ei gyfyngu'n unig i Kenya. Gwelir dros 7,000 o goed, erbyn hyn, yn tyfu ar 4 cyfandir. Cynigiwyd cyfle i bobl lleol ardal Llambed, i blannu coed brodorol yn y cyffiniau, yn Llanybydder, Sir Gaerfyrddin. Fel rhan o'r *Cynllun Cysylltiad Carbon* cafodd disgyblion Ysgol Gynradd Aberaeron y siawns i blannu dros 20 o goed ar gampws y Brifysgol, Llambed mewn partneriaeth â'u cyfoedion yn Kenya, sydd wedi hau 250 o goed. Y mae'r profiadau hyn wedi codi ymwybyddiaeth o'r ôl-troed carbon ac wedi hybu perchnogaeth o'r pwnc, gan greu profiad byw ac uniongyrchol.

Cwmni egwyddorol yw *Treeflights* a gyflwyna agwedd newydd a ffres i'r dull a fabwysiedir i ddatrys y broblem byd-eang o newid hinsawdd. Yn y broses estynnir help-llaw ymarferol i'r bobl hynny, sydd mewn angen difrifol o'r cynwyddau sylfaenol bywyd.

Penderfynwyd anfon llythyr o gymeradwyaeth at Mr Hartwell.

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod. Offrymwyd gweddi gan y Gyng. Mason-George.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tref John Davies, Robert (Hag) Harris, Robert Phillips, Kistiah Ramaya, Chris Thomas, Dorothy Williams, Derek Wilson a SCCH Ryan Jones.
Hefyd gan y Comander Rhanbarthol newydd ei apwyntio ar gyfer Ceredigion sef Mr Simon Powell gan ei fod yn mynychu Cyfarfod Ymgynghorol â'r Awdurdod yr Heddlu Dyfed-Powys yn Swyddfa y Cyngor Sir ym Mhenmorfa, Aberaeron. Roedd y Cyng. Ramaya yn bresennol hefyd, yng nghyfarfod yr heddlu.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU: Dim

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch materion plismona gan y Plismon Richard Marshall

4.1 Yr Ardal Gwahardd Alcohol, Llambed. Nid oedd datblygiadau pellach yn hysbys i'r Plismon Marshall.

4.2 Cyfarfod Ymgynghorol yr Heddlu â'r Awdurdod yr Heddlu Dyfed-Powys 25 Chwefror Penmorfa, Aberaeron am 7pm**:** Cyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r hyn a drafodwyd yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr.

4.3 Gresynwyd y ffaith nad oedd llawer o aelodau'r cyhoedd yn mynychu'r cyfarfodydd PACT (yr heddlu a chymunedau gyda'i gilydd). Y mae'r heddlu'n ymchwilio i ffyrdd newydd i drafod materion yr heddlu, a fydd yn cydlynu'r heddlu â'r gymuned leol.

4.4 Derbyniwyd nifer o alwadau oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn ymwneud â phyrsiau a gollwyd yn y dref.

4.5 Trafodwyd y broblem parcio ar Heol y Porthmyn. Y mae cerbydau'n llwytho/dadlwytho ar yr heol. Y mae ceir wedi eu parcio'n aml ar y palmantau. Penderfynwyd i holi'r cyngor sir a ellir rhwystro'r ceir rhag parcio ar y pamantydd trwy leoli conau arnynt.

4.6 Trafodwyd yr holl broblemau trafnidiaeth y dref. Gofynnodd y Maer tybed a fyddai'r heddlu'n barod i gefnogi cais y cyngor tref i'r cyngor sir parthed archwiliad traffig llawn.

4.7 Y mae cynlluniau ar y gweill i reoli'r traffig ychwanegol sy'n debygol o deithio drwy'r dref yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Mis Mai 2010 yn Llanerchaeron.

4.8 Dedfrydwyd person yn ardal Llambed i garchar am 15 mis oherwydd iddo ladrata meddalwedd y cyfrifiadur gwerth £190,000.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 28ain O IONAWR 2010

Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod hwn fel cofnod cywir.

6. ETHOL Y MAER A'R DIRPRWY-FAER AR GYFER Y FLWYDDYN FWRDEISTREFOL 2010-11

Derbyniwyd llythyron yn cadarnhau derbyn swydd gan y Dapar-Faer Cyng. Rob Phillips a'r Darpar-Dirprwy-Faer Hag Harris.

7. MATERION SY'N CODI

7.1 Ystyriaeth i'r Rhodd mewn Ewyllys (£11,500): Bu i aelodau ystyried yr opsiynau ar gyfer mudiadau/achosion posibl y gellir elwa o'r rhodd, yn ystod cyfarfod mis Ionawr y cyngor tref, sef

- Trosi'r adeilad sy'n dadfeilio wrth gefn i'r Cyfleusterau'r Gwasanaethau Cymdeithasol presennol ar gyfer Canolfan i'r Ieuenctid (5 pleidlais)
- Datblygu Neuadd Fictoria fel adnodd ar gyfer y gymuned (3 pleidlais)
- Neuadd Sgowtiaid (2 bleidlas)
- Rhodd ariannol ar gyfer pobl ieuainc yn ymwneud â'u hastudiaethau (0 pleidlais)

Penderfynwyd defnyddio'r rhodd mewn ewyllys i helpu'r bobl ieuainc y dref ac i ofyn i landlord yr adeilad sy'n mynd â'i ben iddo, sef Cyngor Sir Ceredigion am ddichonolrwydd trosi'r strwythur ar gyfer cartref i'r Clwb Ieuenctid. Yn yr ymateb adroddwyd na fyddai'n ddilys i drosi'r adeilad oherwydd ei gyflwr truenus a'i faint. Byddai'n fwy ymarferol i ddymchwelyd yr adeilad ac i ail-adeiladu ar arwynebedd mwy ond nid yw'r cyllid presennol yn caniatau. Ystyriwyd y defnydd o gabanau-porta. Gellir eu hariannu o'r gyllideb ac o fewn terfynau amser. Nodwyd y datblygiad posibl gan aelodau ac ystyriwyd y gost o adleoli'r cabanu o'u safle presennol. Credid na fyddai'n ddoeth i ddefnyddio'r arian yr ewyllys i dalu am gludiant. Adroddodd y Cyng. Ivor Williams bod cabanau ychwaneg ar gael ar gampws yr hen ysgol gynradd. Daethpwyd i'r canlyniad bod nifer o gwestiynau heb eu hateb parthed y mater dan sylw ee A'i cam dros-dro byddai'r cabanau a sawl un?; Pryd y chwelir yr adeilad sy'n mynd â'i ben iddo – cyn dyfodiad y cabanau? Pryd wneir y penderfyniad ynglŷn â chodi strwythur newydd? Dywedodd y Maer mai ond arwydd o ewyllys da oedd y £11,500 wrth ystyried yr holl arain sydd ei hangen i wireddu'r cynllun. Roedd y Cyng. Sirol Williams yn bwriadu cyfarfod â chynrychiolwyr y Gwasanaethau Ieuenctid Ceredigion, yn fuan, mewn ymgais i fwrw'r maen i'r wal.

Os derbynnir ymateb negyddol ystyrir opsiynau eraill.

7.2 Enwebu cynghorydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB:

Enwebwyd y Gyng. Elsie Dafis i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB. *Hysbyswyd y CAB ond nid yw'r Gyng. Dafis wedi clywed oddi wrthynt cyn belled.* ***I'w hatgofio unwaith yn rhagor.***

7.3 Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref: Archebwyd dau fin gan Rachel Mills Cydlynydd Trefi Taclus – un ar gyfer Parc-yr-Orsedd a'r llall ar gyfer Sgwâr y Farchnad. Cyfarfu'r gost o un bin gan y Cyngor Sir a'r llall gan y Cyngor Tref. Y mae'r ddau fin wedi eu derbyn gan y Cyngor Sir. *Disgwylir clywed am ddatblygiadau pellach.*

7.4 2 Arwydd stryd -Parc St. Germain-sur-Moine: cafodd yr arwyddion eu harddangos yn y parc ar y 15fed o Chwefror gan y Cyngor Sir. Bydd y Maer yn ymgymryd â'r trefniadau parthed tynnu llun gerllaw un o'r arwyddion yng nghwmni cynrychiolwyr yr efeilldref a chynrychiolwyr y Cyngor Tref yn ystod y dyfodol agos. Y gost o 2 arwydd yw £240; y gost o'u gosod mewn lle £111, felly cyfanswm y gost oddeutu £350 I'r Cyngor Tref.

7.5 Clos Glyndŵr: Bydd yr arwydd yn datgan y geiriau *Clos Glyndŵr* yn cael ei brynu gan y Cyngor Sir a'i osod ar eiddo Mr Simon Anderson. Y mae angen caniatâd o leiaf 3 o'r 5 deiliaid cyn medru bwrw ymlaen â'r cais. Bu i'r Clerc adrodd ei bod wedi anfon llythyr at y 4 deiliaid (Y mae Mr Anderson wedi

cytuno eisoes) ac amlen hunan-gyfeiriad â stamp, ar ddechrau mis Hydref 2009. Derbyniwyd un ymateb gan Mr Jamie McCormack. *Cytunodd y Cyng. Phillips i atgofio'r deiliaid, mewn ymgais i fwrw ymlaen â'r cais. Dim datblygiadau yn ystod y cyfarfod hwn.*

Adroddwyd bod y gair "Clos" fel yr ymddangosa yng nghyd-destun *Clos Glyndŵr* yn cael ei gam-sillafu tro ar ôl tro, ar yr agenda, cofnodion a dogfennau'r cyngor tref. Roedd nifer o'r aelodau o'r farn mai'r ffordd gywir oedd *Clôs Glyndŵr* h.y. i gynnwys yr acen grom ar yr "o". Cynigwyd, eiliwyd a derbyniwyd y byddai pob cyfeiriad dyfodol i'r geiriau *Clos Glyndŵr,* mewn dogfennau'r cyngor tref yn cael eu cofnodi fel Clôs Glyndŵr.

7.6 Problemau Trafnidiaeth Llambed

Disgwylir datblygiadau pellach gan y cyngor sir. Gofynnodd y Maer i'r Clerc i atgofio'r cyngor sir, unwaith yn rhagor, o'r ceisidau a gyflwynwyd eisoes ac a gyfeiriwyd atynt mewn cofnodion cynt y cyngor tref.

7.7 Arwydd Tref Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr: Derbyniwyd anfoneb dan law'r cyngor sir parthed y 3 arwydd mynediad i'r dref, sydd wedi eu gosod mewn lle. *Yn disgwyl datblygiadau pellach gan GSC ynglŷn â'r Arwydd Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr:*

7.8 Siarter Tosturiol Cymorth Anifeiliaid: 8 cam gweithredol i helpu anifeiliaid, pobl a'r planed: y mae Cymorth i Anifeiliaid (Animal Aid) yn datguddio ac yn ymgyrchu'n heddychlon yn erbyn pob math o gamdriniaeth i anifeiliaid ac yn hyrwyddo ffordd o fyw heb-greulondeb. Y mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi lleisio ei gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer y Siarter. Dosbarthwyd eu haddasiad o'r siarter ymysg aelodau'r Cyngor Tref, cyn y cyfarfod i'w hystyried gan aelodau. Er bod aelodau yn gytûn o ran egwyddor â'r holl ganllawiau a grybwyllwyd o fewn y siarter, teimlwyd nad oedd gan y cyngor tref yr awudurdod i hawlio bod aelodau'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r gofynion. Felly ni fyddai Datganiad Cyhoeddus yn cefnogi'r Siarter yn cael ei gyhoeddi gan y Cyngor Tref.

7.9 Arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd Cymru: y mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar fin cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion. Ymhlith y materion y bydd y Comisiwn yn eu hystyried bydd maint Cyngor Sir Ceredigion a nifer o ffiniau ei ranbarthau etholiadol yn seiliedig ar y patrwm presennol o gymunedau a wardiau cymunedol. Gwahoddwyd ymatebion erbyn yr 2ail o Fawrth 2010. Penderfynwyd cyflwyno sylwadau cychwynnol yn mynegi bod y cyngor tref yn nodi'r arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion ac yn enwedig ar gyfer Ward Llambed. Gwerthfawrogir y gynrychiolaeth bresennol yn Llambed, sef dau gynghorydd sir yn cynrychioli oddeutu 800 o etholwyr ar gyfer pob cynghorydd, er bod aelodau'n cydnabod mai sefyllfa anghytbwys ydyw wrth gymharu â lleoedd fel ee Caerdydd ble gynrychiolir dros 3,300 o etholwyr gan un cynghorydd.

7.10 Cod Ymddygiad – Canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y mae Mr Peter Tyndall, Ombudsmon yn ymgynghori ar y canllawiau statudol y mae'n bwriadu eu cyhoeddi o dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol 2000 parthed Model y Cod Ymddygiad. Byddai'n ddiolchgar pe bai cynnwys y canllawiau drafft yn cael ei rhannu gydag aelodau. Derbynnydd cyntaf: Cyng. Phillips. Derbynnydd nesaf, y Gyng. Mason-George 25.02.2010.

7.11 Soniodd y Cyng. Ivor Williams iddo dderbyn cais gan Mrs Cheryl Jones yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl iddi wneud cyflwyniad i'r Cyngor Tref, parthed Cancr y Perfedd. *I wahodd Mrs Jones i gyfarfod mis Mawrth y Cyngor Tref.*

7.12 Derbyniwyd ebost gan Mr Lyndon Griffiths CSC yn sôn y byddai'r 2 arwydd stryd, Bryn-yr-Eglwys a Maesyderi/Gwêl-y-Creuddyn yn cael eu hadnewyddu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

8. GOHEBIAETH

8.1 Ymgynghoriad Ynghylch y posibilrwydd o uno'r Pwyllgor Safonau a'r Is-bwyllgor Safonau: CSC: i gefnogi'r uno, er mwyn gwella effeithiolrwydd.

8.2 Holiadur Datblygiad Cynaladwyedd, Un Llais Cymru: bu i'r Cyng. Greg Evans gwblhau'r holiadur ar ran y cyngor tref.

8.3 Trefnwyd cyfarfod gan Lowri Thomas, Rheolwraig Golygfa Stryd CSC ar Ddydd Llun 1af o Fawrth am 10am ger y Ffynnon, Sgwâr Harford, Llambed gyda'r bwriad o drafod syniadau ar gyfer gwella cyflwr y ffynnon. Rhoddwyd gwahoddiad agored i holl gynghorwyr. Hefyd i wahodd Cadeirydd y Siambr Fasnach, Mr Chris Saunders. Codwyd y mater hwn gan y Cynghorydd Sirol Ivor Williams

8.4 Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd trenau yng Nghymru ee hygyrchedd ar gyfer yr anabl, ac yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig gan y rheini sydd â diddordeb. *I drosglwyddo'r wybodaeth at sylw'r Cyng. Phillips.*

8.5 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Llywodraeth Leol (GCD): Roedd y ddadl yn gyffredinol yn un gadarnhaol iawn gyda'r holl siaradwyr yn dadlau o blaid y swyddogaeth bwysig a gyflawnir gan Gynghorau Cymuned a Thref. Cyflwynodd Un Llais Cymru dystiolaeth i Bwyllgor y Cynulliad a'r Pwyllgor dethol dros faterion Cymreig wrth iddynt ystyried drafft y GCD gan ymddangos o flaen pwyllgor y Cynulliad.

8.6 Ymateb gan Mr Roger Clive-Powell parthed y cais i ail-osod y bolard o dan y ffordd bontiog sy'n cysylltu'r Stryd Fawr a maes parcio'r Archfarchnad Sainsbury, o dan hen Neuadd y Dref. Gofynnodd Mr Powell beth oedd rheswm y Cyngor Tref am godi'r angen i ail-osod y bolard o dan y ffordd bontiog. Mynegwyd pryder gan aelodau bod y lle'n gyfyngedig i ddefnyddwyr cadeiriau-gwthio/olwyn oherwydd presenoldeb cerbydau gweithwyr. Gwerthfawrogir petai'r cerbydau'n cael eu parcio mewn modd sy'n caniatau digon o le ar gyfer y defnyddwyr yma. Byddai'n cael ei gyfleu i Mr Powell bod y Cyngor Tref yn gwerthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei ymgymryd gan y Ganolfan Gwiltiau Jen Jones a'i gwerth ar gyfer pobl Llambed a thu hwnt.

9. CYNLLUNIO

9.1 CANIATÂD CYNLLUNIO GAN GYNGOR SIR CEREDIGION

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	**Ymgeisydd**	**Lleoliad / *Bwriad i***
3.02.2010 Rhif y Cais: A090563	*Mr Kevin Thomas* *Datblygiadau Moelfre* *Llechwedd* *Capel Iwan* *Castell newydd Emlyn*	Plot 4 Maeshyfryd Heol y Wîg Llambed *godi tŷ a garej*

9.2 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 13.01.2010 ac Agenda y cyfarfod 10.02.2010: er gwybodaeth.

9.3 **Adolygiad o'r System cais cynllunio** sy'n cael ei arwain gan GVA Grimley ar gyfer LICC: Bydd Un Llais Cymru yn cael ei gynrychioli yn y digwyddiadau ond gall y cyngor ymateb yn uniongyrchol i'r adroddiad ymgynghori fydd ar gael ar y we o'r 8 Mawrth www.gvagrimley.co.uk/wagplanningconsultation: nodwyd er gwybodaeth

9.4 **Y mae Nathaniel Lichfield a Phartneriaid** yn gweithio ar ran Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd ac yn ymwneud ag adolygiad o'r safleoedd posibl i'w defnyddio at ddibenion cyflogaeth. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar De Ceredigion a chaiff ei gynnwys fel tystiolaeth y Cyngor Sir wrth baratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff de Ceredigion ei ddiffinio fel ardal i'r dde o Aberaeron a Thregaron ac yn cynnwys y ddwy dref hon a hefyd Llambed, Aberteifi a Llandysul.
Y mae'r Cyngor Sir Ceredigion wedi hyfforddi Nathaniel Lichfield a Phartneriaid i ymgynghori â Chynghorau Tref o fewn yr ardal i geisio darganfod anghenion masnachwyr yr ardal. Y mae 9 cwestiwn i'w hateb, fel eu derbyniwyd gan Nathaniel Lichfield a Phartneriaid. (Fersiwn Saesneg o'r Cwestiynau yn unig ar gael, felly a wnewch chi gyfeirio at y cofnodion Saesneg y Cyngor Tref Chwefror 25 2010 – Tudalen 6- 9.4)
Cytunodd y Maer i ateb y cwestiynau ar ran y Cyngor Tref.

10. MENTER LLAMBED

10.1 **Safle ar y We Newydd**;. Bydd y Clerc a'r Cyng. Phillips yn derbyn hyfforddiant o 3 awr ar y 13eg o Fawrth yn ymwneud â'r safle newydd.

. **10.2** **Y mae Transition Llambed wedi** derbyn prydles 25 mlynedd gan Gyngor Sir Ceredigion i ddatblygu'r Neuadd Fictoria at ddibenion y gymuned ac i fod yn gynaladwy.

11. CYLLID

11.1 GWARIANT CHWEFROR 2010

Eitem	Tâl
Sgowtiaid Llambed	£500.00
Sioe Amaethyddol Llambed	£100.00
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	£20.00
Hirio Neuadd San Pedr x3awr 25.02.2010	£22.50
Compass Stationery	£203.65
Tocio Perthi, Cae Maesyderi, Gwasanaeth Coed Llambed £480 TAW £84	£564.00
Arwyddion Mynediad i'r dref x 3 £2,960.85; TAW £444.13	£3,404.98
Cyflog Y Clerc Chwefror net (12 awr yr wythnos)	£450.90
Cyflog Y Clerc Chwefror cyfieithu 10awr y mis	£86.59
Treth Incwm a Cyf. YC Chwefror	£97.40
Golau/Gwres/storio Chwefror	£20.00

11.2 **Adroddodd y Cyng. Carter** bod y Sgowtiaid mewn angen difrifol am gefnogaeth ariannol i adnewyddu neuadd y Sgowtiaid ar Stryd yr Eglwys, sef

yr hen ysgol ramadeg ac un o'r adeiladau hynaf y dref. Gallai fod yn deilwng i gymhorthdal oherwydd ei statws hanesyddol. Cyfrannwyd £500 at Fudiad y Sgowtiaid Llambed gan y Cyngor Tref ym mis Tachwedd 2008. Cytunwyd i gyfrannu £500 yn ychwanegol yn ystod y cyfarfod hwn.

11.3 Penderfynwyd peidio â chyfrannu at y Sefydliad Aren Cymru – Apêl Taith Dros Fywyd 2010

11.4 Adolygu'r Rheoliadau ar lwfansau aelodau: LICC: mae Rheoliadau 2003 yn darparu bod y lwfansau a ganlyn ar gael ar gyfer dyletswyddau yr ymgymerir â hwy y tu allan i ffiniau cymunedau: Lwfans Presenoldeb, Lwfans Colled Ariannol, Lwfans am fynd i Gynadleddau/Cyfarfodydd; Lwfans Teithio; Lwfans Cynhaliaeth. Ymatebion erbyn yr 11eg o Fehefin 2010. Trwy gyflwyno'r newidiadau hyn gobeithir annog mwy o bobl i gymryd arnynt y swydd o Gynghorydd Cymuned a Thref*. I'w hystyried yn ystod y dyfodol.*

11.5 Asesiad Risg yn ystod y flwyddyn 2009-10: mae'r asesiad risg drafft wedi ei gwblhau gan y Clerc i dderbyn sylw pellach gan y Maer, Dirprwy-Faer a'r Gyng. Mason-George. (heb ei gyflawni)

12. IS-BWYLLGORAU

12.1 GOLEUADAU STRYD

12.1.1 Adroddodd y Gyng Davies-Evans bod 2 o oleuadau stryd yn ddiffygiol yng nghyffiniau'r Cwmins – i adrodd at sylw'r cyngor sir.

12.2 PALMANTAU

12.2.1 Cytunodd y Gyng. D.Williams i gyflwyno rhestr i gynnwys yr holl broblemau yn ymwneud â phalmantau'r dref, yn ystod y cyfarfod hwn. Gohiriwyd y drafodaeth oherwydd absenoldeb y Gyng. Williams.

12.2.2 Adroddwyd bod dŵr yn gollwng ar balmant ger y siop sy'n gwerthu blodau sef *Cascade,* ar y Stryd Fawr – i adrodd at sylw Dŵr Cymru.

12.3 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

12.3.1 I geisio dyfynbrisiau parthed torri porfa ym Mharc-yr-Orsedd dros fisoedd yr haf (Ebrill i Fedi gan gynnwys y ddau fis hyn) ac i gynnal a chadw llwybrau cerdded. Arddangosir hysbyseb ar hysbysfwrdd y dref i'r perwyl hwn. Dyddiad cau – Dydd Iau 25 o Fawrth 12 Canol Dydd.

12.3.2 Mae'r Gwelliannau ym Mharc yr Orsedd fel y crybwyllwyd mewn adroddiadau diweddar, a sydd wedi eu cynnwys mewn cofnodion cynt, yn mynd yn eu blaen gan Mr Steve Edwardes.

12.4 CAMERAU TCC

12.4.1 Adroddiad Misol ar gyfer Rhagfyr 2009 CSC: bu yna un cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol parthed lladrad a thwyll.

12.4.2 Adroddiad Misol ar gyfer Ionawr 2010 CSC: bu yna 4 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol, un cais am luniau llonydd a 3 cais am ddisgiau copi yn ymwneud â burgleriaeth, dwyn o siop, lladrad a gyrru'n afreolus. Nid oedd yn bosibl symud un camera ond nid oedd

y diffygiad hwn yn ymyrryd ar ansawdd y llun. Dyddiad adrodd y nam 7.01.2010. Boed i beiriannwyr drwsio'r camera fel y gellir ei symud-dyddiad atgyweirio 20.01.2010. Gohiriwyd ymweliad y peiriannwyr oherwydd y tywydd garw.

12.5 ADOLYGIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG

Bu i'r Cyng.Phillips ddosbarthu'r Adolygiad Blynyddol ymysg aelodau cyn y cyfarfod. Oherwydd ei absenoldeb, ni drafodwyd cynnwys yr Adolygiad.

12.6 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI

Cynhaliwyd cyfarfod ar y 17eg o Chwefror. (cofnodion ynghlwm)

13. U.F.A.

13.1 Bu i rai aelodau gyfleu eu bod yn teimlo'n oer yn ystod cyfarfodydd y cyngor tref, a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys. I adrodd at sylw cynrychiolwyr Eglwys San Pedr.

13.2 Y mae angen trwsio mainc ym Mryn-yr-Eglwys gerllaw'r hen ysgol gynradd. I ofyn i'r Cyng. Derek Wilson petai'n bosibl iddo drwsio'r fainc.

13.3 Bu i'r Gyng Dorothy Williams gyflwyno 2 ymholiad dan law'r Gyng Elsie Dafis sef:

13.3.1 Beth ddigwyddodd parthed y gwahoddiad i ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd a dderbyniwyd dros flwyddyn yn ôl? *Gadawyd y mater mewn ataliad.*

13.3.2 Tâl ar gyfer yr un oedd yn canu corn- Dydd Sul y Cofio 8 Tachwedd 2009. Adroddwyd mai'r Lleng Prydeinig oedd yn cymryd cyfrifoldeb y gwasanaeth. Mae'r cyngor tref yn gwneud trefniadau parthed yr argraffu, cyfieithu a'r taliad am raglenni a ddosberthir yn ystod y dydd. Gwnaed cyfraniad o £20 ar gyfer yr un oedd yn canu corn ym 2008 o gronfa'r Cyngor Tref fel arwydd o ewyllys da. *I ddarganfod gwybodaeth pellach cyn dod i benderfyniad.*

13.4 Cynhelir Yr Ŵyl Fwyd Llambed ar Ddydd Sadwrn 24ain o Orffennaf a'r Carnifal ar yr 31ain o Orffennaf 2010.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 9.30pm.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos lau 25ain o Fawrth am 7:00pm yn Neuadd yr Eglwys Llanbedr PS.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)